WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o ddylunio 'Datganiadau Ardal wedi'u cydgynhyrchu' – **Cyfoeth Naturiol Cymru**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2020

Cyfeirnod y ddogfen:1690A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, gan gynnwys a15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ron Price, Jeff Brown a Catryn Holzinger dan gyfarwyddyd Mike Usher.

# Cynnwys

Mae CNC gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn nyluniad Datganiadau Ardal mewn modd ymwybodol. Mae'n defnyddio dull hirdymor, ataliol ond bydd angen iddo gydweithio'n agosach gydag uwch bartneriaid allweddol a chymunedau i ddiffinio'r blaenoriaethau a datblygu ymatebion.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad Manwl

Rhan Un: Datganiadau Ardal: Diben a'r goblygiadau i CNC 7

Rhan Dau: Canfyddiadau'r Archwiliad 8

Mae gan CNC ddealltwriaeth dda am dueddiadau hirdymor, risgiau ac effeithiau ac mae'n datblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer yr amgylchedd yng Nghymru hyd at 2050. Bydd angen i CNC fod yn glir ynghylch sut y mae'n mesur deilliannau hirdymor a sut orau y gall ei ddwyn ei hun a dwyn eraill i gyfrif am eu cyflawni 8

Mae Datganiadau Ardal wedi'u bwriadu i wella cydnerthedd ecosystemau a dwyn manteision ataliol ehangach. Mae gan CNC ddealltwriaeth dda am y rhesymau dros hyn ond mae angen iddo sicrhau bod ganddo resymeg eglur dros ddewis rhwng blaenoriaethau ataliol sy'n cystadlu â'i gilydd 10

Mae Datganiadau Ardal yn cael eu dylunio'n benodol i gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant CNC ac i ddwyn ystod eang o fanteision 11

Mae CNC wedi gwneud cydweithio'n flaenllaw yn y broses Datganiadau Ardal. Bydd angen iddo gydweithio'n brydlon gydag uwch bartneriaid allweddol i sicrhau eu bod yn cael eu cydgynhyrchu a'u cydberchnogi 13

Mae CNC wedi cynnwys rhai rhanddeiliaid yn agos wrth ddatblygu Datganiadau Ardal. Wrth i flaenoriaethau penodol mewn Datganiadau Ardal ddod i'r amlwg, dylai CNC ystyried sut y gall gynnwys dinasyddion yn uniongyrchol 15

Rhan Tri: Ymateb CNC 17

Atodiadau

Atodiad 1: dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio 28

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y cynhalion ni'r archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'n ofynnol yn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a pennu eu hamcanion llesiant; a

b cymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

3 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob un o etholiadau'r Cynulliad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'i fath erbyn 2020, cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2021.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf i oleuo'i adroddiad ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 2018-19 a 2019-20.

5 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau o'n harchwiliad o ddylunio Datganiadau Ardal, cam y mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ei gymryd i gyflawni ei amcanion llesiant.

6 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaethom yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Medi 2019.

7 Mae'r adroddiad hefyd yn nodi ymateb cychwynnol CNC i'n canfyddiadau.

### Yr hyn y gwnaethom ei archwilio

8 Fe archwilion ni i ba raddau y mae CNC yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

> 'Weithio gyda'n partneriaid i gydgynhyrchu saith Datganiad Ardal, a fydd yn ei galluogi'r Polisi Adnoddau Naturiol gael ei roi ar waith yn lleol gan ddangos manteision rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Bydd y set gyntaf yn cael eu cyhoeddi erbyn 2020, ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Bydd gweithgareddau'n cael eu targedu ble gellir dwyn y budd mwyaf i bobl a'r amgylchedd naturiol'

Ceir rhagor o wybodaeth am Ddatganiadau Ardal yn Rhan 1.

9 Mae’r archwiliad hwn wedi ystyried y broses gyffredinol ar gyfer datblygu Datganiadau Ardal, ar y cyd ag ystyriaeth fanylach i waith sy’n cael ei wneud gan dîm ardal Canol De Cymru. Mae hyn wedi goleuo ein dealltwriaeth ynglŷn â sut y mae’r broses yn gweithio’n ymarferol, er bod y canfyddiadau’n canolbwyntio ar y broses Datganiadau Ardal yn ei chyfanrwydd.

10 Fe ddechreuodd CNC gynllunio ym mis Mawrth 2019, gyda’r bwriad o gyhoeddi Datganiadau Ardal ym mis Mawrth 2020. Fe wnaethom ein gwaith maes rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Hydref 2019. Mae cynnal yr archwiliad tra bo CNC yn y broses o ddatblygu ei Ddatganiadau Ardal wedi golygu bod cyfle i sicrhau bod y canfyddiadau’n goleuo camau nesaf gwaith CNC.

11 Er mwyn gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y ‘ffyrdd o weithio’ canlynol:

### Arddangosyn 1: y ‘pum ffordd o weithio’

Mae’r tabl canlynol yn crynhoi’r pum ffordd o weithio a ddiffinnir yn nogfen Llywodraeth Cymru **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr Hanfodion**[1].

| Y Pum Ffordd o Weithio |
|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a’r angen am ddiogelu’r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o’r nodau llesiant, ar bob un o’u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu’r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni’r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny’n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |

12 Rhaid i CNC gymhwyso egwyddorion Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol hefyd.[2] Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllaw ar gyfer CNC sy’n nodi’r canlynol:

> ‘Cymhwyso egwyddorion cyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn briodol yn erbyn y 5 ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r

[1] **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion**, Llywodraeth Cymru (2015).

[2] Rhan 1 a5 (1) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Dyfodol mewn cysylltiad â rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol ac ecosystemau.’

Mae CNC yn ystyried bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy ac egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn gyfystyr â’i gilydd. Drwy’r archwiliad hwn, rydym wedi ceisio sicrhau bod ein gwaith yn cydnabod y rhyngberthynas.

13 Nid yw’r archwiliad hwn wedi ystyried y trefniadau llywodraethu na rheoli rhaglenni sydd ar waith i gyflawni Datganiadau Ardal. Fodd bynnag, fe gynhaliodd tîm Archwilio Mewnol CNC adolygiad o Ddatganiadau Ardal tua’r un adeg â’n harchwiliad ni, a oedd yn canolbwyntio ar y meysydd hyn.

14 Mae CNC gwreiddio’r egwyddor datblygu cynaliadwy yn nyluniad Datganiadau Ardal mewn modd ymwybodol. Mae’n defnyddio dull hirdymor, ataliol ond bydd angen iddo gydweithio’n agosach gydag uwch bartneriaid allweddol a chymunedau i ddiffinio’r blaenoriaethau a datblygu ymatebion.

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: Datganiadau Ardal: Eu diben a'r goblygiadau ar gyfer CNC

15 Mae dyletswydd ar CNC i baratoi Datganiadau Ardal dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Eu prif ddiben yw helpu i hwyluso'r broses o roi'r Polisi Adnoddau Naturiol (PAN) ar waith. Wrth wneud hynny, bydd Datganiadau Ardal yn:

- cyflawni'r heriau, y cyfleoedd a'r blaenoriaethau cenedlaethol, sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r canlyniadau â'r budd mwyaf i Gymru;
- nodi'r lleoliad a'r graddfa (lle bo hynny'n berthnasol) er mwyn mynd i'r afael â'r heriau, y cyfleoedd a'r blaenoriaethau cenedlaethol yn y Polisi ar Adnoddau Naturiol;
- darparu sylfaen dystiolaeth leol integredig; and
- monitro a mesur canlyniadau SMNR, a sut y cafodd y Cynllun Adnoddau Naturiol ei weithredu ar lefel leol.[3]

16 Felly, dylai Datganiadau Ardal nodi camau gweithredu lleol i gyflawni'r blaenoriaethau yn y PAN ar draws holl swyddogaethau CNC. Dylent hefyd ddarparu sylfaen dystiolaeth leol sy'n gallu goleuo camau gweithredu i'w cymryd gyda a chan sefydliadau partner.

17 Mae Datganiadau Ardal o bwys allweddol i CNC am eu bod yn fodd allweddol i gyflawni ei 'ddiben cyffredinol' a'r saith amcan llesiant a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol hyd at 2022, 'Rheoli Adnoddau Naturiol heddiw ar gyfer Cenedlaethau Yfory'.[4] Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi 'Cydgynhyrchu saith Datganiad Ardal' fel un o'r camau y bydd CNC yn eu cymryd i gyflawni ei amcan llesiant 'Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy'.

18 Mae'r Cynllun Corfforaethol hefyd yn disgrifio sut y bydd CNC yn 'Datblygu gweledigaeth a rennir fanwl ar gyfer amgylchedd naturiol Cymru ac o ran sut y bydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn edrych erbyn 2050' er mwyn cyflawni'r amcan llesiant hwnnw. Bydd Datganiadau Ardal yn helpu i gyflawni'r weledigaeth honno, yn ogystal â goleuo'r broses o'i datblygu.

19 Mae CNC yn cydnabod bod angen ffordd wahanol i weithio er mwyn cyflawni'r uchelgais a'r cyfle a ddarperir gan Ddatganiadau Ardal. Yn benodol, mae CNC yn canlyn arni â rhaglen drawsnewid ar raddfa fawr sydd wedi cynnwys aildrefnu trefniadau cyflawni ar sail ardaloedd diffiniedig. Mae 'ardaloedd gweithredol'

[3] Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016: **Canllaw ar Ddiben Cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru**, Llywodraeth Cymru

[4] Caiff diben cyffredinol CNC ei nodi o dan Ran 1 a5 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

newydd CNC wedi'u bwriadu i gysylltu swyddogaethau ac arbenigedd â chyflawni datrysiadau seiliedig ar le a fydd yn cael eu hadnabod trwy Ddatganiadau Ardal.

20 Mae CNC yn cydnabod hefyd y bydd angen i drefniadau cynllunio busnes a dyrannu adnoddau ddatblygu i adlewyrchu'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu yn y Datganiadau Ardal.

21 Mae CNC wedi cyflwyno cwrs hyfforddi deuddydd ar gyfer yr holl staff hefyd, sydd wedi'i fwriadu i wella'u dealltwriaeth am yr egwyddorion Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol a sut y gellir eu cymhwyso. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r berthynas â Datganiadau Ardal. Dywedodd CNC wrthym fod dros 1400 o staff wedi cael eu hyfforddi hyd yma. Mae CNC yn bwriadu integreiddio hyfforddiant yn y dyfodol â'r rhaglen ehangach o waith sydd wedi'i bwriadu i wreiddio Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol ar draws ei swyddogaethau a phrosesau.

# Rhan Dau: Canfyddiadau'r Archwiliad

## Mae gan CNC ddealltwriaeth dda am dueddiadau hirdymor, risgiau ac effeithiau ac mae'n datblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer yr amgylchedd yng Nghymru hyd at 2050. Bydd angen i CNC fod yn glir ynghylch sut y mae'n mesur deilliannau hirdymor a sut orau y gall ei ddwyn ei hun a dwyn eraill i gyfrif am eu cyflawni

### Yr hyn y chwilion ni amdano

22 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am anghenion cyfredol a hirdymor a'r heriau a chyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros raddfa amser briodol;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

23 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[5]

### Yr hyn a ganfuom

24 Canfuom y cryfderau canlynol:

[5] Gweler Atodiad 1

- mae gan CNC ddealltwriaeth glir am y blaenoriaethau a'r cyfleoedd hirdymor ledled Cymru lle mae adnoddau naturiol yn y cwestiwn. Ceir dealltwriaeth glir am risgiau hirdymor allweddol hefyd. Caiff y ddealltwriaeth hon ei goleuo gan y PAN a'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2016.
- caiff y dystiolaeth sy'n tanategu'r Datganiadau Ardal ei goleuo gan ddata cadarn CNC ar dueddiadau amgylcheddol hirdymor yn y gorffennol a'r dyfodol. Mae hyn yn tynnu ar yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, yn ogystal ag amrywiaeth o wybodaeth weithredol.
- er ei fod yn arfer da cynllunio o leiaf ddeng mlynedd ymlaen llaw, mae 'hirdymor' yn gyd-destunol a bydd angen i orwelion amser cynllunio adlewyrchu hynny.[6] Bydd CNC yn amcanu at bennu gorwelion amser ar gyfer y blaenoriaethau a'r camau gweithredu yn y Datganiadau Ardal, gan gydnabod y bydd angen iddynt amrywio.
- bydd cudd-ymchwil ar gyfer Datganiadau Ardal yn goleuo'r broses o ddatblygu'r weledigaeth hirdymor hyd at 2050 ar gyfer amgylchedd naturiol Cymru. Dyna fydd y modd allweddol i'w chyflawni hefyd.
- mae CNC yn datblygu proses cynllunio busnes sy'n amcanu at sicrhau bod ei adnoddau wedi'u cyfeirio tuag at gyflawni'r blaenoriaethau yn y Datganiad Ardal, er nad yw amseriad y prosesau hyn wedi'i gysoni eto.
- mae datblygiad Datganiadau Ardal wedi cael ei adolygu a'i fonitro trwy gyfarfodydd 'Pwynt Adolygu Rhaglen'. Mae'r rhain wedi'u bwriadu i helpu i sicrhau mai'r blaenoriaethau a bennwyd yw'r rhai cywir a'u bod yn canolbwyntio ar ddeilliannau hirdymor.

25 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- er bod gan CNC dystiolaeth helaeth sy'n ymwneud â'r amgylchedd, canfuom fod cyfleoedd i roi ystyriaeth bellach i'r cysylltiadau rhwng tueddiadau amgylcheddol a thueddiadau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ar gyfer yr ardal a adolygwyd gennym; Canol De Cymru. Bydd angen i'r cysylltiad rhwng yr amgylchedd a risgiau a chyfleoedd ar gyfer llesiant, yn yr ystyr ehangaf, fod yn ystyriaeth allweddol trwy gydol y broses o ddatblygu Datganiadau Ardal.
- bydd angen i'r broses o gyflawni Datganiadau Ardal gael ei hategu gan drefniadau atebolrwydd priodol. Bydd angen i Ddatganiadau Ardal nodi deilliannau hirdymor a cherrig milltir mwy byrdymor, yn ogystal â nodi ble y bydd gwaith yn cael ei wneud gyda neu gan bartneriaid (gweler hefyd 'cydweithio').
- bydd angen i CNC ystyried sut a phryd y mae'n adrodd ar gyflawni deilliannau a rennir. Bydd ei adroddiad blynyddol ei hun yn un cyfle.

[6] **Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**, Llywodraeth Cymru

## Mae Datganiadau Ardal wedi'u bwriadu i wella cydnerthedd ecosystemau a dwyn manteision ataliol ehangach. Mae gan CNC ddealltwriaeth dda am y rhesymau dros hyn ond mae angen iddo sicrhau bod ganddo resymeg eglur dros ddewis rhwng blaenoriaethau ataliol sy'n cystadlu â'i gilydd

### Yr hyn y chwilion ni amdano

26 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am natur y broblem a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth;
- adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau y bydd manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a
- monitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

27 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'atal' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[7]

### Yr hyn a ganfuom

28 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae atal yn ganolog i PAN Llywodraeth Cymru. Mae Datganiadau Ardal yn fodd allweddol i gyflawni'r polisi ac felly maent yn cynnwys ffocws clir ar atal dirywiad ecosystemau a meithrin cydnerthedd.
- ar ben hynny, mae Datganiadau Ardal yn cael eu dylunio fel eu bod yn dehongli ac yn cyflawni blaenoriaethau'r PAN trwy ddull seiliedig ar le, a ddylai hwyluso ymateb system-gyfan i ddirywiad ecosystemau. Bydd hyn yn angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol dirywiad ecosystemau a chyfrannu at atal materion ehangach, megis afiechyd.
- mae CNC wedi dylunio proses ar gyfer datblygu Datganiadau Ardal sy'n golygu ystyried tystiolaeth ac archwilio opsiynau ac offer ar gyfer cyflawni. Mae'r broses wedi'i bwriadu i roi arweiniad ar gyfer cynllunio ledled pob ardal ac mae'n ceisio taro cydbwysedd rhwng blaenoriaethau cenedlaethol y PAN ar y naill law ac anghenion lleol ar y llaw arall. Fel rhan o hyn, bydd timau ardal yn defnyddio 'dull pum cam CNC ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol', sy'n rhoi anogaeth i ystyried bygythiadau hysbys i reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol a chyfleoedd i gynyddu cydnerthedd ecosystemau a llesiant ehangach. Felly mae'r broses yn rhoi pwyslais ar gael dealltwriaeth am y cyd-destun lleol ac adnabod datrysiadau seiliedig-ar-

[7] Gweler Atodiad 1

le addas. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, ar adeg yr adolygiad, bod adroddiad archwilio mewnol CNC ar Ddatganiadau Ardal wedi canfod nad oes unrhyw drefniadau sicrhau ansawdd i gefnogi'r dull o asesu tystiolaeth.

- mae gan CNC ddealltwriaeth fanwl am achosion dirywiad ecosystemau sydd, yn y pen draw, yn seiliedig ar yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. Bydd Datganiadau Ardal hefyd yn tynnu ar wybodaeth o Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Bydd proffiliau ardal CNC ei hun yn ffynhonnell wybodaeth bwysig.
- mae CNC yn cydnabod bod deall sut y mae ffactorau perthnasol yn effeithio ar lefel leol iawn yn gallu bod yn her. Mae CNC wedi datgan ei ymrwymiad i geisio barn rhanddeiliaid a gwerthfawrogi gwybodaeth leol, a fydd yn bwysig i ddatblygu ymatebion lleol, wedi'u teilwra (gweler hefyd 'cydweithio' a 'cynnwys').

29 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- bydd ystod eang o gamau ataliol y gellid eu cynnwys yn y Datganiadau Ardal. Gallai'r rhain fod yn gamau gweithredu a gymerir gan CNC neu gyda neu gan randdeiliaid eraill. O ystyried y cyfyngiadau anorfod ar adnoddau, bydd angen i CNC ystyried sut y mae'n gweithio gyda'i bartneriaid i ddewis rhwng blaenoriaethau sydd mewn cystadleuaeth â'i gilydd. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried bod manteision ataliol yn debygol o ymwneud â'r amgylchedd a/neu agweddau eraill ar lesiant i raddau amrywiol.
- er mwyn ennyn ymgysylltiad llawn gan bartneriaid a chyflawni'r bwriad o gyflawni datrysiadau seiliedig ar le, bydd angen i randdeiliaid ddeall sut y gall gwella cydnerthedd amgylcheddol gael effaith gadarnhaol ar lesiant dinasyddion. Gallai CNC wneud mwy i sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn ymwybodol o'r manteision i ecosystemau a'r cyfleoedd a gynigir gan Ddatganiadau Ardal.

## Mae Datganiadau Ardal yn cael eu dylunio'n benodol i gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant CNC ac i ddwyn ystod eang o fanteision

### Yr hyn y chwilion ni amdano

30 Fe chwilion ni am dystiolaeth o ystyried:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

## Yr hyn a ganfuom

31 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae blaenoriaethau PAN Llywodraeth Cymru wedi'u bwriadu i gyflawni manteision ehangach ar draws y nodau llesiant cenedlaethol. Gan ddibynnu ar berthnasedd, y bwriad yw y bydd pob Datganiad Ardal yn nodi sut y gellir adnabod a chyflawni manteision i ecosystemau a manteision ehangach ym mhob ardal.
- un o egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yw manteision lluosog a'r angen i 'ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau'. Mae hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i CNC adnabod ac ystyried y manteision a ddarperir gan adnoddau naturiol ac ecosystemau Cymru, yn ogystal â'u gwerthfawrogi er eu mwyn eu hunain. Mae dull pum cam CNC yn cynnwys adnabod manteision o ran llesiant, gan gynnwys a yw a sut y mae ecosystemau'n gallu cyfrannu at lesiant. Ceir cyfeiriadau at lesiant economaidd a chymdeithasol, ond dylai CNC ystyried llesiant diwylliannol hefyd ochr yn ochr ag agweddau eraill ar lesiant, a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Canfuom fod tîm Canol De Cymru wedi dechrau ystyried y manteision ehangach y gellid eu dwyn.
- dylai rhaglen hyfforddi sefydliad cyfan CNC ar wreiddio rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol a'r pum ffordd o weithio helpu i sicrhau bod staff yn deall sut y gallant ddwyn manteision lluosog.
- ategir amcanion llesiant CNC gan ddisgrifiad eglur sy'n nodi sut y gallant gyfrannu at gyrraedd y nodau cenedlaethol. Mae CNC wedi cytuno ar amcan llesiant, sef 'Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy boddhaus' ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd angen i CNC sicrhau ei fod yn achub ar y cyfle i gyflawni hyn trwy'r Datganiadau Ardal.
- mae CNC yn cydnabod pwysigrwydd ei rôl o ran dylanwadu ar waith cyrff cyhoeddus eraill ac mae'n ystyried bod y Datganiadau Ardal yn ffordd o helpu i sicrhau bod blaenoriaethau amgylcheddol priodol yn cael eu hadlewyrchu yn eu hamcanion lleisiant (Fodd bynnag, gweler hefyd y pwyntiau o dan 'atal').
- mae Datganiadau Ardal yn debygol o ddarparu sylfaen dystiolaeth o ansawdd da ar gyfer cyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill. Dylent hefyd ddarparu adnodd gwerthfawr i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) wrth iddynt ddatblygu'r cylch nesaf o Asesiadau Llesiant a Chynlluniau Llesiant, yn ogystal ag i Gynlluniau Datblygu Lleol awdurdodau lleol a Chynlluniau Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.[8]

[8] Mae Canllaw Llywodraeth Cymru ar Ddiben Cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi bod rhaid i Asesiadau Llesiant, Cynlluniau Datblygu Lleol, Cynlluniau Parciau

- mae model cyflawni newydd CNC, yn seiliedig ar ardaloedd gweithredol sy'n gyson â Datganiadau Ardal, wedi'i fwriadu i sicrhau dull integredig o gyflawni amryw swyddogaethau a blaenoriaethau CNC. Ar ben hynny, mae canllaw Llywodraeth Cymru a dull pum cam CNC yn cyfeirio at yr angen i Ddatganiadau Ardal ymwneud â blaenoriaethau a chynlluniau presennol. Mae'r dull pum cam yn annog pob ardal i ystyried y gweithgareddau sydd eisoes yn eu lle a chyfleoedd posibl i resymoli cynlluniau'n fewnol neu i gysoni Datganiadau Ardal ag eraill yn allanol.

32 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- mae'n anorfod y bydd rhai o'r Datganiadau Ardal yn ymwneud ag iechyd a llesiant unigolion, er mai rhan gyfyngedig yr oedd byrddau iechyd wedi bod yn ei chwarae yn y broses o ddadansoddi'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Datganiad Ardal Canol De Cymru ar adeg ein gwaith maes ni.
- bydd angen i CNC ystyried gwerth ac amlygrwydd manteision ehangach wrth iddo fireinio'i flaenoriaethau (gweler hefyd y maes ar gyfer gwella o dan 'atal').
- wrth i'r dystiolaeth o Ddatganiadau Ardal ddatblygu, bydd yn bwysig bod CNC yn bwrw golwg o'r newydd ar ei amcanion llesiant ei hun i sicrhau bod y rhain yn dal i fod yn addas i'w diben.

## Mae CNC wedi gwneud cydweithio'n flaenllaw yn y broses Datganiadau Ardal. Bydd angen iddo gydweithio'n brydlon gydag uwch bartneriaid allweddol i sicrhau eu bod yn cael eu cydgynhyrchu a'u cydberchnogi

### Yr hyn y chwilion ni amdano

33 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod CNC:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw cydweithio'n ei helpu ef neu'n helpu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

34 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cydweithio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[9]

Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ystyried y dystiolaeth mewn Datganiadau Ardal.

[9] Gweler Atodiad 1

## Yr hyn a ganfuom

35 Canfuom y cryfderau canlynol:

- er bod diben Datganiadau Ardal a'r canllaw cysylltiedig yn cyfarwyddo CNC tuag at ddull cydweithredol, mae CNC wedi gwneud penderfyniad bwriadol i wneud cydweithio'n flaenllaw yn y broses o ddatblygu'r Datganiadau Ardal. Dywedodd staff wrthym fod hyn yn ffordd newydd o weithio i CNC a'u bod wedi ymateb yn gadarnhaol i'r her. Mae CNC yn gobeithio, trwy ddefnyddio dull cydgynhyrchiol o ddatblygu'r Datganiadau Ardal, y bydd yn meithrin perthnasoedd a fydd mor werthfawr â'r cynnyrch terfynol.
- mae proses CNC ar gyfer datblygu Datganiadau Ardal yn nodi cyfleoedd i weithio gyda rhanddeiliaid perthnasol wrth ystyried tystiolaeth, diffinio problemau ac adnabod opsiynau ar gyfer datrysiadau seiliedig ar le, a hefyd gweithredu a monitro. Fodd bynnag, roedd adroddiad archwilio CNC ar Ddatganiadau Ardal yn nodi bod y rhaglen wedi cael 'ei rhoi dan anfantais gan y diffyg Strategaeth Rhanddeiliaid CNC'. Roedd hyn yn golygu bod rhaid mapio rhanddeiliaid yn benodol ar gyfer y rhaglen Datganiadau Ardal (gweler hefyd tudalen 15).
- mae CNC o'r farn bod BGCau yn bartneriaid hollbwysig ar gyfer datblygu a chyflawni'r Datganiadau Ardal. Mae'n bwriadu tynnu ar sylfeini tystiolaeth presennol BGCau, cyfrannu at eu sylfeini tystiolaeth yn y dyfodol (gweler 'integreiddio') a gweithio drwyddynt i gytuno ar ymrwymiad i gamau gweithredu perthnasol sy'n deillio o'r Datganiadau Ardal terfynol.
- canfuom fod tîm Canol De Cymru wedi adnabod y partneriaid yr oedd angen iddo gydweithio gyda hwy trwy ymarfer mapio a'i fod wedi ystyried yr angen i ymgysylltu â hwy mewn ffordd wahanol, trwy wahanol gamau'r gwaith.
- mae tîm Canol De Cymru wedi bod yn ymgysylltu ag arbenigwyr bioamrywiaeth mewn sefydliadau partner i helpu i ddatblygu dealltwriaeth fwy manwl am faterion sy'n ymwneud â'u themâu sy'n dod i'r amlwg. Mae'r tîm wedi bod yn cysylltu â phartneriaid trwy'r BGC hefyd.

Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- ceir gwahaniaeth barn yn CNC ynglŷn â'r hyn y mae Datganiadau Ardal wedi'u bwriadu i'w gyflawni a'r hyn y dylai'r allbwn terfynol ei gynnwys. Roedd rhai pobl y siaradom ni gyda hwy'n ystyried mai modd i ddwyn sylfaen dystiolaeth ynghyd oeddent yn bennaf, tra bo eraill o'r farn eu bod yn pennu blaenoriaethau ac yn dyrannu camau gweithredu a mesurau deilliannau cysylltiedig.
- mae CNC yn cydnabod bod gan randdeiliaid farn gymysg ynglŷn â gwerth ac effaith bosibl y Datganiadau Ardal. Mae staff yn cydnabod bod angen gwneud mwy i newid rhai o'r safbwyntiau hyn.
- mae CNC wedi pennu Mawrth 2020 fel dyddiad cyhoeddi Datganiadau Ardal, gan adael amser byr i gwblhau'r gwaith sy'n weddill. Felly, ceir

cydnabyddiaeth y bydd angen i waith manwl barhau y tu hwnt i'r dyddiad cyhoeddi, o ystyried uchelgais CNC bod y Datganiadau Ardal yn cael eu cydgynhyrchu go iawn. Bydd angen i CNC gynllunio ar gyfer hyn a'i reoli, gan sicrhau bod y disgwyliadau'n eglur i staff a rhanddeiliaid.

- ar adeg ein gwaith maes, canfuom fod tîm Canol De Cymru wedi bod yn ymgysylltu ag arbenigwyr technegol mewn sefydliadau partner (gweler hefyd 'cynnwys'). Fodd bynnag, bydd yn bwysig bod CNC yn mynd ati'n gyflym i adnabod ac ymgysylltu ag uwch aelodau o staff mewn sefydliadau partner i sicrhau y ceir cydberchnogaeth ar y Datganiadau Ardal.
- dylai CNC ystyried y mecanweithiau y gall eu defnyddio i ddylanwadu ar y gweithgarwch a gyflawnir gan ei bartneriaid cyflawni. Er enghraifft, bydd CNC yn ceisio dyrannu ei grantiau i gyflawni blaenoriaethau'r Datganiadau Ardal, ond dim ond rhai sefydliadau y bydd hyn yn ei alluogi i'w dwyn i gyfrif am gyflawni.
- dylai CNC ystyried sut y gall fanteisio ar y momentwm ychwanegol y gallai'r datganiad ynghylch argyfwng hinsawdd ei gynnig.

## Mae CNC wedi cynnwys rhai rhanddeiliaid yn agos wrth ddatblygu Datganiadau Ardal. Wrth i flaenoriaethau penodol mewn Datganiadau Ardal ddod i'r amlwg, dylai CNC ystyried sut y gall gynnwys dinasyddion yn uniongyrchol

### Yr hyn y chwilion ni amdano

36 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi adnabod pwy y mae angen iddo'u cynnwys wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi mynd ati mewn ffordd effeithiol i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi defnyddio canlyniadau cynnwys pobl i ddylanwadu ar ddatblygu a chyflawni'r cam; ac
- wedi ceisio dysgu gwersi a gwella'i ddull o gynnwys.

### Yr hyn a ganfuom

37 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae methodoleg CNC yn rhoi pwyslais ar ddatblygu cyd-ddealltwriaeth a gwerthfawrogi gwybodaeth leol ochr yn ochr â data empirig. Fodd bynnag, myfyriodd CNC y bydd rhai heriau'n gysylltiedig â chynnwys yn effeithiol, gan gynnwys sicrhau bod cyrff rhanddeiliaid cenedlaethol yn gallu ymgysylltu a chynnal sgyrsiau lleol sy'n canolbwyntio ar le. Canfu'r tîm

Archwilio Mewnol fod diffyg strategaeth rhanddeiliaid ar draws y sefydliad cyfan yn golygu nad oedd y broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid cenedlaethol ar Ddatganiadau Ardal yn cael ei chydgysylltu'n dda.

- cynhaliodd tîm Canol De Cymru weithdai yn 2016, a oedd yn cynnwys 100 o staff CNC a 40 o sefydliadau allanol, i gadarnhau themâu a blaenoriaethau allweddol ar ddechrau'r broses Datganiadau Ardal. Cafodd nifer o'r syniadau y meddyliwyd amdanynt eu hymgorffori yn amcanion llesiant CNC hefyd. Yn fwy diweddar, mae Canol De Cymru, ar y cyd â thimau Datganiadau Ardal eraill, wedi bod yn cynnwys rhanddeiliaid allanol allweddol mewn gweithdai pellach.
- mae CNC yn cydnabod bod angen iddo ddefnyddio ystod o ddulliau i helpu rhanddeiliaid i ymgysylltu â materion a thystiolaeth. Mae dogfennaeth fewnol CNC yn disgrifio sut y gall fod angen gwahanol dechnegau cynnwys ac ymgysylltu yn y broses Datganiadau Ardal, megis barn arbenigwyr, paneli dinasyddion ac mae'n archwilio ffyrdd o 'ddilysu neu galfaneiddio' materion lle ceir barn amrywiol.

38 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- mae CNC o'r farn bod yr angen i gynnwys pobl yn y Datganiadau Ardal wedi cael ei ddiwallu hyd yma gan waith a wnaed gan ei randdeiliaid, yn enwedig y BGCau. Fodd bynnag, wrth i'r blaenoriaethau a chamau gweithredu mwy manwl ddod i'r amlwg bydd cyfleoedd i CNC gynnwys dinasyddion a chymunedau'n uniongyrchol yn y broses o ddatblygu ymatebion. Gallai hyn gynnwys helpu i ddehongli blaenoriaethau mewn cyd-destun lleol.

# Rhan Tri: Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru

39 Yn dilyn cwblhau ein gwaith maes fe gyflwynon ni ein canfyddiadau i CNC mewn gweithdy ym mis Hydref 2019. Yn bresennol yn y gweithdy roedd staff sydd â rôl yn y broses o ddylunio a gweithredu Datganiadau Ardal, gan gynnwys staff o dîm Canol De Cymru. Yn ystod y sesiwn fe ddechreuodd CNC ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau. O ganlyniad i drafodaethau yn y gweithdy a myfyrio ymhellach ynghylch ein canfyddiadau mae CNC wedi datblygu'r camau gweithredu yn y tabl isod.

40 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd CNC o ran rhoi'r camau gweithredu hyn ar waith, ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r materion yr ydym wedi'u hadnabod yn ein canfyddiadau.

Arddangosyn 2: camau gweithredu CNC

| Meysydd ar gyfer gwella | Angen cam gweithredu? | Cam gweithredu | Sut a pherchennog y cam gweithredu |
|---|---|---|---|
| **Hirdymor** | | | |
| Er bod gan CNC dystiolaeth helaeth sy'n ymwneud â'r amgylchedd, canfuom fod cyfleoedd i roi ystyriaeth bellach i'r cysylltiadau rhwng tueddiadau amgylcheddol a thueddiadau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ar gyfer yr ardal a adolygwyd gennym; Canol De Cymru. Bydd angen i'r cysylltiad rhwng yr amgylchedd a risgiau a chyfleoedd ar gyfer llesiant, yn yr ystyr ehangaf, fod yn ystyriaeth allweddol trwy gydol y broses o ddatblygu Datganiadau Ardal. | Oes | Bydd CNC yn sicrhau:<br>• bod pob datganiad ardal yn myfyrio ynghylch pa bartneriaid y mae angen eu cynnwys yng ngham nesaf y gwaith er mwyn iddynt allu creu'r cysylltiadau rhwng yr amgylchedd/adnoddau naturiol a llesiant ehangach.<br>• bod y blaenoriaethau/themâu yn cael eu hysgrifennu mewn ffordd sy'n ystyried llesiant yn ei ystyr ehangach<br>• bod y cysylltiadau rhwng yr amgylchedd/adnoddau naturiol a llesiant ehangach yn cael eu dogfennu yn y Datganiadau Ardal terfynol | Mae'r templed ar y we yn mynd i'r afael â hyn, a bydd gofyn i bob Pennaeth Lle wirio hyn fel rhan o'r broses gymeradwyo.<br>Ceir cyfle ar gyfer dysgu yma i'r Tîm Adnoddau Naturiol a Llesiant weithio gyda'r Adran Dystiolaeth. |
| | | Bydd CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i archwilio goblygiadau marchnadoedd newidiol o ganlyniad i Brexit, yr effaith debygol ar wahanol sectorau (e.e. amaethyddiaeth), sut y gallai hynny effeithio'n ofodol a'r effaith y bydd yn ei chael ar lesiant, gan gynnwys diwylliant. Gallai hyn helpu i oleuo Datganiadau Ardal. | Y Pennaeth Polisi RhAN sy'n atebol am y cam gweithredu hwn, gyda rheolwyr ar draws yr adran Polisi RhAN yn cyfrannu. |

| Meysydd ar gyfer gwella | Angen cam gweithredu? | Cam gweithredu | Sut a pherchennog y cam gweithredu |
|---|---|---|---|
| | | Bydd CNC yn ystyried sut y gall sicrhau bod materion cenedlaethol sy'n ymwneud â newidiadau polisi perthnasol a Brexit yn goleuo datblygiad y Datganiadau Ardal. | Bwrdd Busnes RhAN a'r Tîm Rhaglen Brexit i ystyried |
| | | Bydd CNC yn ystyried sut y gall ddefnyddio gwersi o gylch cyntaf y broses Datganiadau Ardal i ddiweddaru'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol | Paragraff dros dro wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Interim ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. Tîm Adnoddau Naturiol a Llesiant i reoli prosiect i gasglu gwersi o Ddatganiadau Ardal i oleuo'r 2il Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ac i greu agenda ddysgu genedlaethol ar gyfer Datganiadau Ardal. |
| Bydd angen i'r broses o gyflawni Datganiadau Ardal gael ei hategu gan drefniadau atebolrwydd priodol. Bydd angen i Ddatganiadau Ardal nodi deilliannau hirdymor a cherrig milltir mwy byrdymor, yn ogystal â nodi ble y bydd gwaith yn cael ei wneud gyda neu gan bartneriaid (gweler hefyd 'cydweithio'). | Oes | Bydd CNC yn datblygu trefniadau atebolrwydd i roi cymorth i gyflawni Datganiadau Ardal, gan gynnwys:<br>• parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu fframwaith adrodd ar gyfer Datganiadau Ardal a sicrhau bod gwybodaeth yn bwydo'n ôl i mewn i bolisi cenedlaethol. | BB RhAN i adolygu deilliant proses y Datganiadau Ardal cyntaf mewn perthynas â sut y gwnaed penderfyniadau ynghylch gweithredu a darparu adnoddau<br><br>Tîm Adnoddau Naturiol a Llesiant yn cydweithio gyda'r Adran Bolisi RhAN a'r Adran Dystiolaeth i bennu fframweithiau ar y cyd ar gyfer adrodd |

| Meysydd ar gyfer gwella | Angen cam gweithredu? | Cam gweithredu | Sut a pherchennog y cam gweithredu |
|---|---|---|---|
| | | • parhau i ddatblygu ei brosesau adrodd a chynllunio busnes corfforaethol i sicrhau bod adrodd ar Ddatganiadau Ardal yn broses graidd. Fel rhan o hyn, byddant yn sicrhau bod datganiadau ardal a chynlluniau lle yn rhan o'r un broses. | Tîm Cynllunio Corfforaethol |
| Bydd angen i CNC ystyried sut a phryd y mae'n adrodd ar gyflawni deilliannau a rennir. Bydd ei adroddiad blynyddol ei hun yn un cyfle. | Oes | Ystyried sut y gallwn fynd ati'n rheolaidd i ddiweddaru ac adrodd ar ein cynnydd o ran datblygu a gweithredu datganiadau ardal gan ddefnyddio offer ar-lein | Bydd y templed ar y we'n sicrhau bod ein Datganiadau Ardal cychwynnol yn cael eu cyflwyno ar-lein. Byddwn yn parhau i archwilio ffyrdd o gyflwyno data mewn gwahanol ffyrdd. |
| | | Datblygu mesurau ansoddol a meintiol allweddol sy'n cyfleu 'sut mae llwyddiant yn edrych' ym mhob ardal. | Bydd mesurau Ansoddol a Meintiol yn cael eu perchnogi ar y cyd rhwng pob Pennaeth Lle a'r Pennaeth Busnes. Tîm Adnoddau Naturiol a Llesiant i ddwyn ynghyd agenda ddysgu genedlaethol / fframwaith dysgu cenedlaethol ar gyfer Datganiadau Ardal. |

| Meysydd ar gyfer gwella | Angen cam gweithredu? | Cam gweithredu | Sut a pherchennog y cam gweithredu |
|---|---|---|---|
| | | Annog sefydliadau eraill i adrodd ar newidiadau y maent hwy'n eu gwneud a sut y maent yn cyfrannu at ddeilliannau a rennir sydd wedi'u nodi yn y Datganiadau Ardal – gellid gwneud hyn yn rhannol trwy eu cyfrifoldebau dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd. | Pob Pennaeth Lle fel rhan o'u rôl ar BGCau, a rheolwyr perthnasoedd penodol eraill, i ysgogi a hwyluso'r broses o adrodd ar ddeilliannau a rennir. Dylid ailystyried a gwerthuso hyn dros amser |
| | | Archwilio sut y gellir adrodd ar agweddau perthnasol ar gyflawni trwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. | Bydd y Tîm Adnoddau Naturiol a Llesiant yn perchenogi hwn ar y cyd â'r timau Pobl a Lleoedd |
| | | Sicrhau yr adroddir ar Ddatganiadau Ardal yn yr Adroddiad Blynyddol | Tîm Cynllunio Corfforaethol yn rheoli'r broses i goladu gwybodaeth ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol. Tîm Pobl a Lleoedd i ddarparu cynnwys. |
| **Atal** | | | |
| Bydd ystod eang o gamau ataliol y gellid eu cynnwys yn y Datganiadau Ardal. Gallai'r rhain fod yn gamau gweithredu a gymerir gan CNC neu gyda neu gan randdeiliaid eraill. O ystyried y cyfyngiadau anorfod ar adnoddau, bydd angen i CNC ystyried sut y mae'n gweithio gyda'i bartneriaid i ddewis rhwng | Oes | Bydd CNC yn cydnabod y synergeddau a'r cyfnewidiadau posibl a allai fodoli rhwng opsiynau ar gyfer gweithredu a nodwyd trwy'r Datganiadau Ardal. Lle mae angen penderfyniadau bydd y rhain yn cael eu gwneud ar y lefel Lywodraethu briodol (gan gynnwys trwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus).<br>Gweler hefyd y pwynt uchod parthed: Datblygu ei brosesau adrodd a chynllunio busnes corfforaethol i sicrhau bod | Bydd angen i bob Pennaeth Lle sicrhau bod hyn wedi cael sylw agored trwy ystyried opsiynau a chyfleoedd. |

| Meysydd ar gyfer gwella | Angen cam gweithredu? | Cam gweithredu | Sut a pherchennog y cam gweithredu |
|---|---|---|---|
| blaenoriaethau sydd mewn cystadleuaeth â'i gilydd. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried bod manteision ataliol yn debygol o ymwneud â'r amgylchedd a/neu agweddau eraill ar lesiant i raddau amrywiol. | | adrodd ar Ddatganiadau Ardal yn broses graidd. Fel rhan o hyn, byddant yn sicrhau bod datganiadau ardal a chynlluniau lle yn rhan o'r un broses. | |
| Er mwyn ennyn ymgysylltiad llawn gan bartneriaid a chyflawni'r bwriad o gyflawni datrysiadau seiliedig ar le, bydd angen i randdeiliaid ddeall sut y gall gwella cydnerthedd amgylcheddol gael effaith gadarnhaol ar lesiant dinasyddion. Gallai CNC wneud mwy i sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn ymwybodol o'r manteision i ecosystemau a'r cyfleoedd a gynigir gan Ddatganiadau Ardal. | Oes | Mae CNC o'r farn bod Datganiadau Ardal yn offeryn cyfathrebu allweddol. Bydd yn ceisio mynd ati'n barhaus i wella'i gyfathrebiadau ac ystyried sut y mae'n defnyddio proses adrodd storïau i ddangos y cysylltiadau rhwng ecosystemau a llesiant dinasyddion. | Ar hyn o bryd mae'r Grŵp Llywio Datganiadau Ardal yn dirprwyo hyn i'r is-grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Bydd y cam gweithredu hwn yn cael ei berchnogi ar y cyd gan y Pennaeth Cyfathrebu, y Pennaeth Gwasanaeth a'r Arweinydd Busnes ar gyfer Datganiadau Ardal. |
| **Integreiddio** | | | |
| Mae'n anorfod y bydd rhai o'r Datganiadau Ardal yn ymwneud ag iechyd a llesiant unigolion, er mai | Dim angen unrhyw gam gweithredu | Bydd CNC yn parhau i weithio trwy rwydweithiau presennol i rannu ein canfyddiadau a gwahodd eraill i ddwyn eu tystiolaeth gerbron, fel ein bod yn gallu profi ein tybiaethau. | Sylwer bod Canol De Cymru wedi cael sgyrsiau ers hynny gyda'r holl bartneriaid lleol ym maes iechyd. |

| Meysydd ar gyfer gwella | Angen cam gweithredu? | Cam gweithredu | Sut a pherchennog y cam gweithredu |
| --- | --- | --- | --- |
| rhan gyfyngedig yr oedd byrddau iechyd wedi bod yn ei chwarae yn y broses o ddadansoddi'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Datganiad Ardal Canol De Cymru ar adeg ein gwaith maes ni. | newydd | Rydym yn ymwybodol o offer megis Asesu'r Effaith ar Iechyd y gellir eu defnyddio i helpu i bwyso a mesur effeithiau cynigion a gyflwynir ar iechyd a thros amser bydd angen i ni ddatblygu canllawiau ynghylch eu defnyddio. | Mae rhoi ystyriaeth i gymhwyso Asesiadau o'r Effaith yn briodol ac yn gymesur ar y Gofrestr Risg. Y Grŵp Llywio Datganiadau Ardal i gynghori ynghylch canllawiau ar gyfer gweithio ar Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd gyda'r tîm Adnoddau Naturiol a Llesiant. |
| Bydd angen i CNC ystyried gwerth ac amlygrwydd manteision ehangach wrth iddo fireinio'i flaenoriaethau (gweler hefyd y maes ar gyfer gwella o dan 'atal'). | Oes | Bydd CNC yn parhau i weithio gydag eraill megis y Pwyllgor Cyfalaf Naturiol a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, i ddatblygu offer sy'n gallu helpu i werthuso manteision ehangach. Yn y cyfamser, bydd CNC yn glir ynghylch sut y mae'r manteision wedi cael eu hadnabod a'u hasesu gan weithio ar y lefel lle. | Y Tîm Adnoddau Naturiol a Llesiant ar y cyd â'r Adran Dystiolaeth i ddeall yn well sut y gellir mabwysiadu a chymhwyso offer gwerthuso a rhoi cymorth i Benaethiaid Lle.<br>Bydd angen i bob Pennaeth Lle sicrhau bod gwaith i werthuso gwasanaethau ecosystemau / manteision i ecosystemau wedi cael ei wneud fel rhan o'r broses. |
| Wrth i'r dystiolaeth o Ddatganiadau Ardal ddatblygu, bydd yn bwysig bod CNC yn bwrw golwg o'r newydd ar ei amcanion llesiant ei hun i sicrhau | Oes | Bydd CNC yn defnyddio'r gwersi a thystiolaeth o'r broses Datganiadau Ardal i helpu i adolygu ei amcanion llesiant. | Y Tîm Adnoddau Naturiol a Llesiant ar y cyd â'r Tîm Cynllunio Corfforaethol. |

| Meysydd ar gyfer gwella | Angen cam gweithredu? | Cam gweithredu | Sut a pherchennog y cam gweithredu |
|---|---|---|---|
| bod y rhain yn dal i fod yn addas i'w diben. | | | |
| **Cydweithio** | | | |
| Ceir gwahaniaeth barn yn CNC ynglŷn â'r hyn y mae Datganiadau Ardal wedi'u bwriadu i'w gyflawni a'r hyn y dylai'r allbwn terfynol ei gynnwys. Roedd rhai pobl y siaradom ni gyda hwy'n ystyried mai modd i ddwyn sylfaen dystiolaeth ynghyd oeddent yn bennaf, tra bo eraill o'r farn eu bod yn pennu blaenoriaethau ac yn dyrannu camau gweithredu a mesurau deilliannau cysylltiedig. | Oes | Bydd CNC yn cynyddu cyfathrebu mewnol ac allanol ynglŷn â "beth yw Datganiad Ardal" er mwyn rheoli disgwyliadau a meithrin disgwylgarwch. Mae cynllun cyfathrebu ar gyfer y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Gorffennaf 2020 wedi cael ei ddatblygu ac yn cael ei weithredu. | Y Tîm Adnoddau Naturiol a Llesiant gyda chymorth y Pennaeth Gwasanaeth (Martyn Evans) a'r Tîm Cyfathrebu (James Pearson) |
| Mae CNC yn cydnabod bod gan randdeiliaid farn gymysg ynglŷn â gwerth ac effaith bosibl y Datganiadau Ardal. Mae staff yn cydnabod bod angen gwneud mwy i newid rhai o'r safbwyntiau hyn. | Oes | Gweler uchod | Fel uchod |
| Mae CNC wedi pennu Mawrth 2020 fel dyddiad cyhoeddi Datganiadau | Dim cam gweithredu | Caiff hwn ei dderbyn yn eang yn CNC a bydd yn cael ei reoli trwy'r sianeli cyfathrebu a dyrannu adnoddau. | |

| Meysydd ar gyfer gwella | Angen cam gweithredu? | Cam gweithredu | Sut a pherchennog y cam gweithredu |
|---|---|---|---|
| Ardal, gan adael amser byr i gwblhau'r gwaith sy'n weddill. Felly, ceir cydnabyddiaeth y bydd angen i waith manwl barhau y tu hwnt i'r dyddiad cyhoeddi, o ystyried uchelgais CNC bod y Datganiadau Ardal yn cael eu cydgynhyrchu go iawn. Bydd angen i CNC gynllunio ar gyfer hyn a'i reoli, gan sicrhau bod y disgwyliadau'n eglur i staff a rhanddeiliaid. | newydd | | |
| Ar adeg ein gwaith maes, canfuom fod tîm Canol De Cymru wedi bod yn ymgysylltu ag arbenigwyr technegol mewn sefydliadau partner (gweler hefyd 'cynnwys'). Fodd bynnag, bydd yn bwysig bod CNC yn mynd ati'n gyflym i adnabod ac ymgysylltu ag uwch aelodau o staff mewn sefydliadau partner i sicrhau y ceir cydberchnogaeth ar y Datganiadau Ardal. | Oes | Digwyddiad a gynhelir gan CNC yn y Senedd ym mis Ionawr yn gyfle allweddol. Sgwrs o fewn y tîm arwain wedi'i threfnu ar gyfer dechrau mis Rhagfur ynglŷn â sut i gynyddu momentwm a chael cefnogaeth sefydliadau partner. | Pennaeth y Gwasanaeth (Martyn Evans) yn hwyluso trafodaethau gyda Phenaethiaid Lle eraill fel bod uwch arweinwyr BGCau yn ymgysylltu. Ysgrifennu at arweinwyr Polisi / rheolwyr perthnasoedd i ofyn iddynt gynnal sgyrsiau gydag Uwch Arweinwyr mewn cyrff eraill. Mae gwaith eisoes wedi cael ei wneud trwy rwydweithiau rhanddeiliaid Morol. |
| Dylai CNC ystyried y mecanweithiau y gall eu defnyddio i ddylanwadu ar | Oes | Bydd CNC yn ystyried sut i fframio'i ddisgwyliadau ar gyfer eraill ac yn ceisio adolygu mecanweithiau eraill yn ogystal â | Arweinydd y Tîm Adnoddau Naturiol a Llesiant i sicrhau gweithio |

| Meysydd ar gyfer gwella | Angen cam gweithredu? | Cam gweithredu | Sut a pherchennog y cam gweithredu |
|---|---|---|---|
| y gweithgarwch a gyflawnir gan ei bartneriaid cyflawni. Er enghraifft, bydd CNC yn ceisio dyrannu ei grantiau i gyflawni blaenoriaethau'r Datganiadau Ardal, ond dim ond rhai sefydliadau y bydd hyn yn ei alluogi i'w dwyn i gyfrif am gyflawni. | | grantiau (megis caffael, Memoranda Cyd-ddealltwriaeth a hawlenni). Ceisio gweithio gyda sefydliadau cenedlaethol eraill megis swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau bod Datganiadau Ardal yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio Llesiant. Rydym yn asesu ein rôl o ran cyflawni'r cynllun ffermio cynaliadwy mewn modd ymwybodol. | cydgysylltiedig gyda Dulliau a Rhaglenni Strategol.<br>Y Tîm Adnoddau Naturiol a Llesiant i .<br>sefydlu prosiect ar y cyd gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ddatblygu canllawiau ynghylch defnyddio Datganiadau Ardal i ddatblygu'r cylch nesaf o Gynlluniau Llesiant. |
| Dylai CNC ystyried sut y gall fanteisio ar y momentwm ychwanegol y gallai'r datganiad ynghylch argyfwng hinsawdd ei gynnig. | Oes | Trwy rwydweithiau megis SDCC+ mae'r sgyrsiau hyn eisoes yn dechrau digwydd. Bydd CNC yn ystyried sut i fframio allbynnau'r Datganiadau Ardal ar y cyd fel ymrwymiad tuag at yr argyfwng hinsawdd. | Mae Bwrdd CNC wrthi ar hyn o bryd yn ystyried y datganiad argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth. Y Tîm Adnoddau Naturiol a Llesiant yn gweithio gyda'r tîm Cynllunio Ynni a Datgarboneiddio i ystyried goblygiadau ar gyfer fframio Datganiadau Ardal. Y Grŵp Llywio i weithio gyda Phenaethiaid Lle i sicrhau fframio priodol, sy'n gyson â thrafodaethau Seiliedig ar le. |
| **Cynnwys** | | | |
| Mae CNC o'r farn bod yr angen i gynnwys pobl yn y Datganiadau | Oes | Unwaith y bydd y Datganiadau Ardal wedi'u cyhoeddi bydd CNC yn dechrau gweithio gyda rhwydweithiau BGCau i | Y Tîm Adnoddau Naturiol a Llesiant i weithio gyda'r Adran Dystiolaeth i |

| Meysydd ar gyfer gwella | Angen cam gweithredu? | Cam gweithredu | Sut a pherchennog y cam gweithredu |
|---|---|---|---|
| Ardal wedi cael ei ddiwallu hyd yma gan waith a wnaed gan ei randdeiliaid, yn enwedig y BGCau. Fodd bynnag, wrth i'r blaenoriaethau a chamau gweithredu mwy manwl ddod i'r amlwg bydd cyfleoedd i CNC gynnwys dinasyddion a chymunedau'n uniongyrchol yn y broses o ddatblygu ymatebion. Gallai hyn gynnwys helpu i ddehongli blaenoriaethau mewn cyd-destun lleol | | ddeall pa gyfleoedd cydweithio allai fod ar gyfer cyfranogiad dinasyddion. | ystyried sut y gall gwaith seiliedig-ar-le lleol oleuo neu gael ei oleuo gan arolwg cenedlaethol, ac arolygon cyhoeddus eraill.<br>Timau Pobl a Lleoedd i gydnabod cyfleoedd ar gyfer cynnwys y cyhoedd a, lle y bo angen, ceisio cyngor ynghylch offer a thechnegau, a sicrhau bod dysgu sefydliadol ar y cyd yn digwydd. |

# Atodiad 1

## Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

### Arddangosyn 3: dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio

Mae'r tabl yn nodi 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u hadnabod. Nid ydym wedi defnyddio'r dangosyddion fel rhestr wirio. Dylid ystyried mai dangosyddion ydynt. Fe wnaethant ein helpu i ddod i gasgliadau wrth ystyried i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei Amcanion Llesiant.

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio hirdymor yn llawn? |
| --- |
| • Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae 'hirdymor' yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a'r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Maent wedi dylunio'r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol.<br>• O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.<br>• Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi'u nodi lle bydd deilliannau'n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.<br>• Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.<br>• Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio ataliol yn llawn? |
| --- |
| • Mae'r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.<br>• Mae'r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.<br>• Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau. |

**Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'?**

- Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.
- Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.
- Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.
- Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.
- Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.
- Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.
- Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau.

**Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?**

- Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.
- Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.
- Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.
- Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.
- Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol.

**Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?**

- Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.
- Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.
- Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.
- Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.
- Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.
- Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.
- Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.
- Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru